

MEINI PRAWF AR GYFER DAD-DRWYDDEDU SAFLEOEDD NIWCLEAR

Cyflwyniad

1 Mae'r datganiad polisi hwn yn sail i'r ystyriaethau y mae angen i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) eu pwysu a'u mesur er mwyn dad-drwyddedu safle niwclear trwyddedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol, a drwyddedwyd gan HSE o dan Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965, fel y'i diwygiwyd.¹

2 Mae'n ceisio bod yn gyson yn *gyffredinol* â barn wyddonol gyfredol, canllawiau perthnasol a deunydd cyhoeddedig arall gan gynnwys Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 (a'r gorchmynion eithrio a wnaed oddi tani), erthygl 5 y Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol a Chanllaw Diogelwch yr Asiantaeth Ynni Atomig Ryngwladol (IAEA), sef "Application of the Concepts of Exclusion, Exemption and Clearance"². Mae'r meini prawf ar gyfer pennu 'dim perygl', a ddisgrifir yn y datganiad hwn, wedi'u hysgrifennu gyda'r safonau a'r canllawiau hyn mewn cof.

3 Dylid nodi nad bwriad y datganiad hwn yw ystyried y risg sy'n bodoli y tu hwnt i iechyd dynol³.

Amcan

4 Mae'r datganiad⁴ hwn yn sail i bolisi lle gall HSE sefydlu, yn sgîl ei asesiad ei hun, yn sgîl tystiolaeth deiliad y drwydded, a thrwy wybodaeth gan gyrrff rheoleiddio eraill sy'n ymwneud â'r safle (e.e. Asiantaeth yr Amgylchedd neu Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban), nad yw unrhyw ymbelydredd gweddilliol ar y safle, sy'n uwch na'r cefndir naturiol cyfartalog yn beryglus - 'dim perygl'. Unwaith y bodlonir y meini prawf 'dim perygl' a bennwyd gan y Ddeddf Safleoedd Niwclear, bydd HSE yn gallu gwneud penderfyniad ar ddad-drwyddedu safle yn gyfan gwbl neu'n rhannol⁵.

5 Caiff yr angen i HSE ddiffinio 'dim perygl' ei ysgogi gan y geiriad yn Neddf Safleoedd Niwclear 1965. Credwn mai'r ffordd fwyaf defnyddiol o fynegi'r diffiniad hwn yw ei gyflwyno o ran risg rifiadol i fywyd dynol, yn hytrach na defnyddio ymadrodd penodol megis "risg isel iawn" heb fod yn siŵr pa mor isel a olygwn.

Beth yw Dad-drwyddedu?

6 At ddibenion y datganiad polisi hwn mae dad-drwyddedu yn golygu "terfynu'r cyfnod cyfrifoldeb o dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear". Diffinnir hyn yn adran 5(3) Deddf Safleoedd Niwclear a dim ond pan fydd HSE yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i deiliad y drwydded yn nodi, yn ei farn ef, "nad oes unrhyw berygl mwyach o ymbelydriadau ïoneiddio o unrhyw beth ar y safle, neu, yn ôl y galw, ar unrhyw ran o'r safle hwnnw", y gall ddigwydd.

¹ Adrannau 3(6) a 5(3) Deddf Safleoedd Niwclear 1965, fel y'i diwygiwyd.

² Cyfres Safonau Diogelwch IAEA Rhif RS-G-1.7. Ar gael yn http://www-pub.iaea.org/MTCD/publications/PDF/Pub1202_web.pdf

³ h.y. risgiau i fflora/ffawna.

⁴ Adolygir y datganiad polisi yn achlysurol i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol ac yn briodol.

⁵ Mewn achos annhebygol lle bod trwydded eisoes wedi ei diddymu gan HSE neu ei hildio gan y deiliad trwydded, mae'r Ddeddf yn gosod cyfnod o gyfrifoldeb sy'n golygu bod y deiliad trwydded yn parhau i fod yn atebol am unrhyw niwed a achosir gan ymbelydredd ar y safle yn ystod y cyfnod hwnnw. Dim ond pan all y deiliad trwydded fodloni'r meini prawf 'dim perygl', fel y diffinnir yn y datganiad polisi hwn y gall y cyfnod o gyfrifoldeb hwnnw ddod i ben.

7 Cyn dad-drwyddedu unrhyw dir ar safleoedd niwclear, mae'n rhaid i HSE fodloni ei hun bod dad-drwyddedu (fel y'i dehonglir yn y datganiad polisi hwn) yn briodol ac na chynhelir gweithgareddau mwyach y mae angen trwydded ar eu cyfer ar y safle neu'r rhan o'r safle sydd i'w dad-drwyddedu. Golyga hyn, ymysg pethau eraill, nad oes unrhyw wastraff ymbelydrol ar ôl ar y safle neu'r rhan o'r safle sydd i'w dad-drwyddedu.

Dim Perygl

8 Mae Adrannau 3(6)(b) a 5(3)(a) Deddf Safleoedd Niwclear yn cynnwys gofyniad nad oes "dim perygl" ac "nad oes unrhyw berygl mwyach" o ymbelydriadau ìoneiddio o unrhyw beth ar y safle neu'r rhan honno o'r safle sydd o dan ystyriaeth ar gyfer ei dad-drwyddedu. Mae'r gofynion hyn yn gymwys i ryddhau deiliad y drwydded o'i gyfnod cyfrifoldeb. Fodd bynnag, nid yw asesu'r hyn sy'n gyfystyr â 'dim perygl' yn fater hawdd, yn enwedig os bu halogiad ymbelydrol ar y safle. Mae hyn oherwydd y tybir yn rhyngwladol bod perthynas niwed/dogn linellol ar gyfer ymbelydredd ìoneiddio ac nad oes isafswm trothwy lle yr ystyrir bod dognau bach yn ddiogel. Mae pob deunydd yn cynnwys lefelau isel o ymbelydredd cefndir sy'n digwydd yn naturiol, ac felly, o'i ddehongli mewn ffordd benodol, ni fyddai HSE byth yn gallu dad-drwyddedu unrhyw ran o safle. Fodd bynnag, mae'r Ddeddf Safleoedd Niwclear yn caniatáu dad-drwyddedu, felly dylai safleoedd (neu rannau o safleoedd) o dan rai amgylchiadau, fod yn gallu cael eu dad-drwyddedu.

Meini Prawf HSE ar gyfer Dim Perygl

9 Ym marn HSE, ni all gofyn i ddeiliad trwydded ddangos bod 'dim perygl' yn gyfystyr â gofyn i ddeiliad trwydded ddangos bod y safle yn 'gwbl ddiogel'. Ni ellid byth darparu sicrwydd mor absoliwt, waeth pa mor drylwyr y caiff safle ei lanhau a'i fonitro. I ni, mae'n awgrymu y gallai fod yn dderbyniol i berygl radiolegol bach ond cyfyngedig barhau, ar ôl terfynu gweithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer ar y safle, ac yn dilyn gwaith dadhalogi a glanhau trylwyr, ac y byddai canfod a lleihau hyn ymhellach yn gofyn am ymdrech a chostau anghymesur. Fodd bynnag, byddai HSE yn gofyn i'r deiliad trwydded ddangos na fydd unrhyw berygl radiolegol sy'n weddill yn peri risg barhaus sylweddol i unrhyw un, waeth pa ddefnydd a wneir o'r safle, nac unrhyw beth sy'n weddill ar y safle, yn y dyfodol.

10. Ar sail canllawiau presennol a gyhoeddwyd eisoes⁶, mae HSE o'r farn bod risg ychwanegol o farwolaeth i unigolyn, sef un farwolaeth mewn miliwn y flwyddyn, yn 'gyffredinol dderbyniol' i gymdeithas. Gan gymhwyso hyn i safleoedd niwclear trwyddedig, byddai unrhyw ymbelydredd gweddilliol, uwchlaw'r cefndir naturiol cyfartalog, y gellir ei arddangos yn foddhaol ei fod yn peri risg sy'n llai nag un farwolaeth mewn miliwn y flwyddyn yn 'gyffredinol dderbyniol'. At ddibenion ymarferol, felly, byddwn yn defnyddio'r maen prawf hwn fel sail i'r hyn yr ystyriwn ei fod yn gyfystyr â 'dim perygl' at ddibenion adrannau 3(6)(b) a 5(3)(a) NIA65. Byddai cydymffurfio â'r maen prawf hwn fel arfer yn golygu y gall HSE ddiddymu'r safle o reolaeth reoleiddio o dan NIA65 - h.y. caniatáu i'r safle gael ei ddad-drwyddedu.

⁶ Er enghraifft, cyhoeddiadau HSE: "Tolerability of Risk" (TOR) a "Reducing Risks, Protecting People" (R2P2).

11. Gellid defnyddio deddfwriaeth megis Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 (a'r gorchmynion eithrio a wnaed oddi tani) a'r Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol (Euratom 96/29) sy'n pennu safonau ar gyfer diogelu iechyd pobl hefyd i lywio penderfyniadau ar hyn sy'n gyfystyr â 'dim perygl'. O dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993, yn unol â pholisi'r llywodraeth⁷, ni fydd rheoleiddwyr yn ceisio gostyngiadau pellach mewn gollyngiadau lle y mae amlygiadau'r cyhoedd ar y lefel orau a lle y bydd yn llai nag 20 microSievert y flwyddyn. Mae Atodiad 1 Cyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol (Euratom 96/29) yn galluogi aelod-wladwriaethau i eithrio ymarfer lle y bo'n briodol a heb ystyriaeth bellach os bydd dognau i'r cyhoedd yn 10 microSievert y flwyddyn neu lai. Cred HSE fod y cyfyngiad hwn o ran dogna yn gyfystyr â'r maen prawf 'dim perygl' un fawrolaeth mewn miliwn y flwyddyn yn ogystal â bod yn gyson â deddfwriaeth arall a chynghor rhyngwladol sy'n ymwneud â diogelwch ymbelydrol y cyhoedd.

12. Cred HSE fod cyfateb 'dim perygl' â'r maen prawf hwn yn ymagwedd ymarferol tuag at fodloni'r hyn y gellid ei ganfod yn ofyniad absoliwt ac amhosibl ei gyflawni yn ymarferol y Ddeddf Safleoedd Niwclear. Er mwyn rhoi'r risgiau gweddilliol yr ydym yn eu hystyried yma mewn cyd-destun ehangach, dylid nodi mai'r amcangyfrif o risg o farwolaeth, ar gyfartaledd, o ymbelydredd sy'n digwydd yn naturiol yn y DU yw tua un mewn 10,000 y flwyddyn⁸.

Deddfwriaeth Arall

13 Os gall gweithredwr ddangos bod modd bodloni'r maen prawf uchod, mae'n bosibl y bydd HSE yn fodlon i'r safle gael ei ddiddymu o ofynion y Ddeddf Safleoedd Niwclear. Fodd bynnag, mae gofynion cyffredin Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr sicrhau iechyd a diogelwch 'cyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol' (neu, yn gyfatebol, y caiff risgiau eu lleihau i raddau sydd "Mor Isel ag sy'n Rhesymol Ymarferol" – ALARP) hefyd yn gymwys a bydd HSE yn disgwyl i'r gweithredwr ddangos ei fod yntau hefyd wedi ystyried y gofynion ALARP cyffredin hyn. Yn ymarferol, efallai fod hyn yn beth hawdd ei gyflawni ac efallai mai'r cyfan sydd angen ei wneud yw dangos nad oes unrhyw weithgareddau glanhau cost isel eraill y gellid eu cyflawni⁹, oherwydd os bydd HSE o'r farn bod y gweithredwr wedi dangos bod y risg weddilliol wedi'i lleihau i lai nag un farwolaeth mewn miliwn, bydd hyn fel rheol yn ddigon i fodloni ei holl bryderon gwirioneddol. Ar lefelau risg mor isel, ni fyddai'n afresymol i weithredwr ddefnyddio adnoddau sylweddol i geisio llai byth o risgiau ac ni fyddai HSE yn disgwyl i weithredwr wneud hyn.

14 Er bod HSE yn ystyried bod risg un farwolaeth mewn miliwn y flwyddyn yn ddigon isel i fodloni gofyniad 'dim perygl' adrannau 3(6)(b) a 5(3)(a) NIA65, ni all hyn sicrhau na fydd deddfwriaeth arall, yn arbennig deddfwriaeth amgylcheddol yn gosod gofynion rheoli parhaus ar y tir di-drwydded¹⁰. Felly, byddai'n ymarferol i unrhyw

⁷ Cm 2919 Adolygiad o'r Polisi Rheoli Gwastraff Ymbelydrol – Adran 73

⁸ Cyhoeddiad y Bwrdd Cenedlaethol Diogelu Ymbelydrol, sef "Living with Radiation", ISBN 0-85951-419-6, 1998. Noda hyn (Tudalen 24) mai tua 1 mewn 7700 yw'r risg flynyddol gyfartalog o farwolaeth yn y DU o bob ffynhonnell o ymbelydredd ioneiddio, gan gynnwys meddygol a chefnidir.

⁹ Er enghraifft, efallai y bydd diddymu adeiladau a sylfeini a halogwyd yn flaenorol yn gyfan gwbl yn lleihau unrhyw debygolrwydd o unrhyw ymbelydredd gweddilliol – a thrwy hynny yn lleihau'r risg weddilliol yn sylweddol. Gallai camau gweithredu o'r fath gynnig sicrwydd pellach i ddarpar feddianwyr a pherchnogion safleoedd yn y dyfodol. Wedi'u pwyso yn erbyn hyn y mae'r costau o ymgymryd â'r gwaith a'r anfanteision cysylltiedig o ran yr amgylchedd ehangach. Byddai ystyriaethau o'r fath yn amrywio o safle i safle a gallai ddibynnu'n gryf ar werthoedd eiddo a defnydd masnachol rhagweledig.

¹⁰ Efallai y bydd gweithgareddau mewn perthynas â thir a halogir gan ymbelydredd yn ddarostyngedig i reoliadau o dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993. Yn ogystal, mae Rhan IIA Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn

weithredwr sy'n cyflwyno cais dad-drwyddedu ystyried unrhyw ddeddfwriaeth ac eithrio'r NIA65 a allai fod yn gymwys i'r safle a ddad-drwyddedwyd a cheisio barn yr adran briodol o'r llywodraeth, asiantaeth yr amgylchedd a'r awdurdod cynllunio lleol.

Asesu Ceisiadau Dad-drwyddedu

15 Er bod y datganiad polisi hwn yn nodi egwyddor sylfaenol a ddefnyddir i farnu ceisiadau dad-drwyddedu, nid yw'n darparu canllawiau ymarferol i weithredwyr ar sut i fynd ati i baratoi achos ar gyfer dad-drwyddedu. Nid yw ychwaith yn darparu canllawiau i aseswyr HSE ei hun o ran penderfynu ar dderbynioldeb cynigion dad-drwyddedu gweithredwyr.

16 Bydd canllawiau technegol Arolygiaeth Safleoedd Niwclear HSE i aseswyr sy'n cynnal asesiadau o geisiadau dad-drwyddedu ar gael ar wefan HSE¹¹.

Hysbysu am Benderfyniadau Dad-drwyddedu

17 Yn unol â pholisi HSE ar fod yn agored a chynnwys rhanddeiliaid, bydd HSE yn hysbysu rhanddeiliaid lleol am benderfyniadau mewn perthynas â cheisiadau dad-drwyddedu drwy gyfarfodydd ac adroddiadau arferol y Pwyllgor Cyswllt Lleol¹².

Crynodeb

18 I grynhoi, ymhlith gofynion HSE ar gyfer sefydlu 'dim perygl' wrth ystyried cais i ddad-drwyddedu safle niwclear trwyddedig yn gyfan gwbl neu'n rhannol mae:

- Y gallu i ddangos y bydd unrhyw ymbelydredd sy'n weddill ar y safle, sy'n uwch nag ymbelydredd cefndir, a allai fod wedi deillio o weithgareddau y mae angen trwydded ar eu cyfer, yn arwain at risg o farwolaeth i unigolyn sy'n defnyddio'r safle at unrhyw ddiben cymharol ragweladwy na fydd yn fwy nag un mewn miliwn y flwyddyn.

HSE

Mai 2005

diffinio "tir halogedig", ac yn darparu ar gyfer ei adfer, a gallai hyn gael unrhyw oblygiadau o ran unrhyw halogiad cemegol a allai fod yn bresennol. Efallai y byddai'n synhwyrol i unrhyw asesiad o'r risgiau sy'n deillio o ymbelydredd sy'n weddill gael ei asesu ochr yn ochr â halogiad cemegol. Efallai y bydd hyn yn galluogi mesurau adfer i fynd i'r afael â'r holl risgiau mewn ffordd fwy cost-effeithiol na phe cânt eu hystyried ar adegau gwahanol. Efallai y bydd deiliaid trwydded am ystyried cael Cofnod Cyflwr Tir (gweler www.silc.org.uk) neu gofnod cyfatebol, i helpu i ddarparu rhagor o hyder yng nghyflwr y tir.

¹¹ Dylai fersiwn drafft fod ar gael drwy wefan HSE (gweler www.hse.gov.uk) o haf 2005 ymlaen, a disgwyllir i fersiwn ffurfiol gael ei gyhoeddi ddiwedd 2005.

¹² Mae HSE yn cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgorau Cyswllt Lleol (LLC) fel rhan o'i bolisi ar gynnwys rhanddeiliaid ac yn y gobaith o sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoleiddio sy'n ymwneud â safleoedd niwclear trwyddedig ar gael i'r cyhoedd. Mae gan bob safle niwclear trwyddedig mawr bwyllgor cyswllt lleol, a gaiff ei redeg fel rheol gan ddeiliad y drwydded, sy'n cynnwys awdurdodau lleol, undebau llafur, grwpiau lleol â diddordeb a'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau Pwyllgor Cyswllt Lleol HSE yn chwarterol i aelodau o'r pwyllgor ac maent yn yn cwmpasu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio diogelwch ar y safleoedd. Mae Arolygwyr Safle Arolygiaeth Safleoedd Niwclear HSE yn mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau Cyswllt Lleol, yn cyflwyno adroddiad ar unrhyw gamau rheoleiddio a gymerir ac yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Cyhoeddir adroddiad chwarterol HSE ar wefan HSE hefyd (<http://www.hse.gov.uk/nsd/index.htm#local>).